




## O ble cawn ni'r ynni?

Haul, gwynt a thonau a dos dda o ewyllys gwleidyddol. Mae angen y rhain i gyd arnom

**Gweld byd gwahanol**  
A ddylai Cymru droi'n radical unwaith eto?

 cyfeillion y ddaear cymru  
friends of the earth cymru  
**gweld byd gwahanol**





Mae gennym benderfyniadau mawr i'w gwneud yma yng Nghymru.

Ar hyn o bryd mae cwmnïau'n ymgiprys am y tanwydd ffosil sydd ar ôl o dan ein trefi a'n pentrefi, o dan ein moroedd a'n haberoedd, ein caeau a'n mynyddoedd. Nid yw fel pe bai o bwys bod arbenigwyr hinsawdd yng Nghanolfan Tyndall yn dweud bod ffracio am nwy siâl yn mynd i olygu dweud ffarwél wrth leihad yn ein hallyriadau carbon. Nid yw fel pe bai o bwys bod awdurdod blaenaf y byd, yr Asiantaeth Ynni Rhyngwladol, yn disgrifio ein hysfa i ecsbloetio rhagor o ffynonellau tanwydd ffosil fel trychineb ar gyfer y blaned. Ac er ein bod yn gwybod bod ein gwlad hardd wedi ei bendithio ag adnoddau anferth o ynni adnewyddadwy, mae'r cynnydd ar ddefnyddio'r haul, gwynt a'r môr i bweru dyfodol cynaliadwy yn cloffi

yng Nghymru. Felly rydym ar groesffordd. A ydym am droi nôl i fod yn genedl tanwydd ffosil brwnt beth bynnag fo'r canlyniadau? Neu a ydym am ganolbwyntio ar ynni adnewyddadwy glân, a'r hyn a allai fod yn gyfnod o ffyniant a thwf gwyrdd?

Ar hyn o bryd mae'r grym i wneud y penderfyniadau mawr hyn ar ynni yn nwylo Lloegr. Cred ein Cyfarwyddwr nad yw hyn yn gweithio i Gymru ac er mwyn eich helpu i benderfynu drosoch eich hunan rydym yn rhoi'r ffeithiau clir i chi. Dadlennir rhai gwirioneddau anghyfforddus, ond mae rhai arwyddion gobeithiol i'w cael hefyd.

O sôn am hynny, mae aelodau ein grwpiau lleol yn sicr yn griw egniol a gobeithiol. Mae llawer yn digwydd ym mhob rhan o'r wlad, o gefnogi ynni adnewyddadwy i ymgyrchu yn erbyn ynni niwclear a llosgyddion gwastraff anferth. Mae digon o weithredu ymarferol hefyd

gyda phlannu coed, garddio cymunedol, cyfnewid hadau, ffeiriau gwyrdd a gwyliau bwyd yn ddim ond ychydig o'r hyn sy'n digwydd oherwydd pŵer y bobl.

Wedi'r cyfan, weithiau mae'n fater o weld byd gwahanol. Er mwyn darganfod beth allai hynny olygu i Gymru rydym wedi gofyn i dri ymgyrchydd profiadol a ydynt yn teimlo bod yr amser wedi dod i fod ychydig yn fwy radical.

Felly, boed eich bod yn ein cefnogi eisoes, neu eich bod mewn grŵp lleol, yn gweithredu ar-lein neu'n plannu gardd gwenyn gyfeillgar darllenwch ymhellach i gael gwybod am lawer rhagor o ffyrdd y gallwch chi fagu grym hefyd.



## CYNNWYS

### 4 Y llanw'n troi yn erbyn llosgi

Mae ffyrdd gwell i wella ailgylchu a lleihau gwastraff na llosgi

### 4 Newyddion da i wenyn

Llywodraeth Cymru yn addo cynorthwyo ein peillwyr sydd dan fygythiad

### 5 Anhrefn niwclear

Mae amhendantwydd y Llywodraeth ac ansicrwydd o du diwydiant yn golygu bod y polisi ar ynni niwclear yn dadfeilio

### 5 Cartrefi cynnes i Gymru

Deddf newydd yn gyfle gwych i wella ansawdd tai yng Nghymru

### 5 Yn gryno

Ffracio, nwyeddio glo dan ddaear a therfynau cyflymder 20mya

### 6 Grwpiau lleol

Newyddion gwyrdd o Gasnewydd, Llangollen, Caerffili, Pontypridd ac Aberystwyth

### 7 Yn y Cynulliad

Gallai'r aildrefnu diweddar ar y cabinet gael effaith mawr ar yr amgylchedd yng Nghymru

### 8 Datblygiad cynaliadwy

Rhaid i'r ddeddf newydd fod yn ddigon cryf i greu dyfodol teg a gwyrdd i bawb

### 8 Gweld byd gwahanol

Tri ymgyrchydd yn sôn am newid

### 10 Peilonau a phŵer


Ai protestiadau ynghylch peilonau neu ddiffyg arweiniad gwleidyddol sy'n sefyll rhyngom ag ynni adnewyddol yng Nghymru?

### 11 Cadw Gwenyn

Sut allwch chi helpu'r gwenyn, a dod yn rhan o'n hymgyrch fawr

### 12 Ynni yng Nghymru

Ffeithiau ac ystadegau ynglŷn ag o ble y daw ein hynni a sut y byddwn yn ei ddefnyddio



# Cefnogwch ni

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn rhan o Gyfeillion y Ddaear Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae llawer o ffyrdd hawdd i chi gyfranu - o godi arian wrth chwilio'r rhyngwyd i gymryd rhan mewn digwyddiad codi arian

Os nad ydych eisoes yn gefnogwr Cyfeillion y Ddaear beth am ymuno a ni heddiw? Bydd eich cyfraniad yn ein helpu i ddod o hyd i atebion i ddiogelu'r blaned a'i phobl yn awr ac i'r dyfodol. Ewch i [www.foe.co.uk](http://www.foe.co.uk) neu ffoniwch **0800 581 0510**. Byddem yn ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth.

Os ydych am i genedlaethau'r dyfodol fwynhau perthynas gadarnhaol â'r amgylchedd yna ystyriwch adael rhodd yn eich Ewyllys i Cyfeillion y Ddaear. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Lesley ar **0207 566 1667** neu [lesley.braden@foe.co.uk](mailto:lesley.braden@foe.co.uk). Am ragor o fanylion ewch i [www.foe.co.uk/legacies](http://www.foe.co.uk/legacies)

Beth am godi arian ar gyfer Cyfeillion y Ddaear drwy ddefnyddio peiriant chwilio'r rhyngwyd Everyclick. Cofrestrwch yn [www.everyclick.com/friendsoftheearthtrust](http://www.everyclick.com/friendsoftheearthtrust)

Mwynhewch a helpwch - trefnwch ddigwyddiad codi arian i Gyfeillion y Ddaear Cymru. Ffoniwch **029 2022 9577**

## Ymunwch â ni ar-lein

Gwefan Cyfeillion y Ddaear Cymru yw eich canolfan wybodaeth ac adnoddau ar gyfer materion amgylcheddol yng Nghymru. Caiff ei ddiweddarau'n rheolaidd â newyddion, digwyddiadau, manylion grwpiau lleol, adroddiadau, datganiadau i'r wasg a chyhoeddiadau. Ymunwch â ni ar Facebook a Twitter, a chael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion gwyrdd yn y cyfryngau, digwyddiadau amgylcheddol ac ymgyrchoedd o bob rhan o Gymru.



[www.cyddcymru.co.uk](http://www.cyddcymru.co.uk)



Facebook  
[www.facebook.com/foecymrucydd](http://www.facebook.com/foecymrucydd)



Twitter  
[www.twitter.com/foecymrucydd](http://www.twitter.com/foecymrucydd)



Sganiwch y côd gyda darllynydd QR ar smartphone (cost cyfraddau data arferol) er mwyn ymuno â'n ffyrddau newyddion Facebook a Twitter



# RHIFYN 5 2013

## Cymru yn arwain y ffordd ar gyfer dyfodol gwyrdd i bawb

Cyhoeddir Gweithredu Gwyrdd gan **Cyfeillion y Ddaear Cymru**  
33 Oriol Arcêd y Castell, Caerdydd CF10 1BY  
Ffôn: 029 20229577 e-bost: [cymru@foe.co.uk](mailto:cymru@foe.co.uk)  
gwefan: [www.cyddcymru.co.uk](http://www.cyddcymru.co.uk)  
Rhif Cyfeillion y Ddaear Cymru Cyfyngedig 1012357

Golygydd a chynllunydd: Simon Williams  
Golygydd iaith Gymraeg: Haf Elgar  
Cyfranwyr: Gareth Clubb, Bledwyn Lake, Hannah Perry

### Cyfeillion y Ddaear Cymru:

- yn ysbrydoli'r gweithredu lleol a chenedlaethol sydd ei angen i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol
- yn rhan o Gyfeillion y Ddaear Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon
- yn rhan o'r rhwydwaith ymgyrchu amgylcheddol mwyaf eang yn y byd
- yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm
- yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru

Am dros 40 mlynedd rydym wedi gweld bod lles pobl a'r blaned yn mynd law yn llaw. Ar y cyd gyda miloedd o bobl fel chi rydym wedi sicrhau bwyd a diod diogelach, amddiffyn bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol, hyrwyddo'r symudiad tuag at ynni glân a gweithredu i gadw ein hinsawdd yn sefydlog.

### Byddwch yn Gyfaill i'r Ddaear – gweld byd gwahanol



Argraffwyd ar bapur a wnaed 100 y cant o wastraff ôlddefnyddiwr, gan ddefnyddio inciau llysiâu ac yn gwbl rydd o alcohol, gan argraffwr a chanddo achrediad amgylcheddol rhyngwladol ISO 14001

# Y llanw'n troi yn erbyn llosgi

Rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi technolegau modern i wella ailgylchu a lleihau gwastraff

Mae Cyfeillion y Ddaear Casnewydd a thrigolion lleol wedi gwrthsefyll cynnig am losgydd gwastraff ger Llanwern, gyda'r datblygwyr yn tynnu nôl fis Mawrth.

Dyma'r ail dro yn ddiweddar i gynllun llosgydd gael ei wrthod yng Nghymru yn dilyn ymgyrchoedd cryf gan grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear, yn gweithio'n agos gyda chymunedau. Mae'n ymddangos y trodd y llanw yn erbyn llif o gynlluniau a oedd yn bygwth difetha cymunedau, gyda threchu cynllun llosgydd anferth ger Merthyr Tudful yn 2011. Erbyn hyn mae'n glir bod llosgyddion diangen henffasiwn yn amhoblogaidd gyda phobl leol, yn ddrwg ar gyfer rheoli gwastraff ac yn wael i'r amgylchedd.

Mae safbwynt blaenorol Llywodraeth

Cymru o blaid llosgyddion nawr yn edrych yn un anodd iawn i'w gynnal, wrth i dechnolegau newydd a chyfraddau cynyddol ailgylchu ddangos mai dinosoriaid chwydu mwg yw llosgyddion.

Ond mae llosgydd yn cael ei godi yn Sblot, Caerdydd ac mae safle arall wedi ei ddynodi ar Lannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint. Mae'n ymddangos bod y prosiectau hyn a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn dal i ffafrio llosgi sbwriel - er bod y broses hyd yn hyn wedi bod yn chwerthinllyd, gyda nifer o gwmnïau yn tynnu allan. Mae'r ddau brosiect wedi bod yn ddiffygiol o rhan penderfyniadau agored ac mae'n debygol y caiff trethdalwyr eu caethiwo mewn contractau 25 mlynedd costus a diangen.

Mae Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad ei

hun wedi rhybuddio yn erbyn y contractau hirdymor anhyblyg. Yn dilyn ymchwiliad, rhybuddiodd y Pwyllgor y gallai llosgyddion mawr rhanbarthol atal technolegau newydd mwy effeithiol rhag datblygu, megis triniaeth fiolegol fecanyddol (MBT).

Mae gwleidyddion o bob plaid yng Nghymru yn cydnabod bod dulliau amgen i losgi gwastraff, ac maent yn pryderu am effaith llosgi ar iechyd ac ailgylchu. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn dal yn amharod i newid cyfeiriad. Mewn stori gwastraff sydd fel arall yn un llwyddiannus - cynnyddu ailgylchu, lleihau gwastraff, tâl ar fagiâu yn arbed adnoddau - mae'n bryd i'r Llywodraeth ailystyried lle mae ein harian yn cael ei wario.

## Newyddion da i wenyn yng Nghymru

### Cadw Gwenyn

Mae'n loteri côd post i wenyn. Os ydynt am lywodraeth sy'n hyrwyddo eu lles tra'n bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith hanfodol o beillio 75% ein hoff fwydydd a'n cnydau pwysicaf yna dylent fyw yng Nghymru.

Mae llawer o rywogaethau gwenyn a phryfed peillio eraill yn lleihau'n syfrdanol, sy'n bygwth ein hamgylchedd, ein heconomi a'n bwyd. Lleihaodd cytrefi gwenyn mêl a reolir gan dros 50% rhwng 1985 a 2005. Mae gwenyn mêl gwyllt bron â diflannu'n llwyr mewn sawl rhan o'r DU ac ystyrir chwarter y rhywogaethau gwenyn gwyllt yn brin neu o dan fygythiad.

Ond nawr gallai Llywodraeth Cymru gynnig cymorth a chyngor i ffermwyr a chymunedau i warchod y mwy na 250 rhywogaeth gwenyn yn y DU. Mae miloedd o bobl wedi cefnogi ein hymgyrch, Cadw Gwenyn, sy'n galw am weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiadau, megis colli cynefinoedd a defnydd ar blaeiddiaid. Ar ôl trafodaethau gyda'n hymgyrchwyr mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Cynllun Gweithredu Pryfed Peillio ar gyfer Cymru.

Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru, grwpiau ac asiantaethau eraill ar gynnwys y cynllun, a mae'r awgrymiadau cyntaf yn addawol. Maent yn cynnwys newidiadau i'r system gynllunio, rhagor o blanu peillio-gyfeillgar ar dir cyhoeddus megis ymyl ffyrdd a pharciau, ac ymchwil i effaith plaeiddiaid yng Nghymru.

Mae llawer y gallwch chi ei wneud hefyd, ac wrth gwrs yn awr mae angen i ni berswadio Llywodraeth y DU i ddechrau gofalu am ein cymdogion sy'n wenyn yn

Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Trowch i dudalen 11 i ddarganfod sut y gallwch helpu i achub ein gwenyn**



Ymarfer plannu mewn potiau a gynhaliwyd mewn gweithdy tyfu eich bwyd eich hun

## Penwythnos o ysbrydoli a gweithredu

Bob blwyddyn bydd gwleidyddion, newyddiadurwyr, gwyddonwyr ac ymgyrchwyr blaenllaw Cymru a'r DU yn ymuno gydag aelodau grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yng Nghymru

am benwythnos o sgysiaid, gweithdai, trafodaethau ac ysbrydoliaeth. Mae'r lleoliadau'n drawiadol a'r tywydd rywfodd yn wych bob tro! I gael gwybod rhagor e-bostiwch [bleddyn.lake@foe.co.uk](mailto:bleddyn.lake@foe.co.uk)

# Anhrefn niwclear



Yr haul yn machlud dros orsaf bŵer niwclear Wylfa ar Ynys Môn

Rydym yn clywed bron yn ddyddiol am ffyrdd newydd a dyfeisgar y mae Llywodraeth y DU yn ceisio plygu'r rheolau er mwyn caniatáu hyd yn oed rhagor o gymhorthdal ar gyfer y math peryglus a drud hwn o bŵer. Byddai absenoldeb dim ond un o'r cymorthdaliadau hyn - yswiriant ar gyfer trychinebau niwclear - yn gwneud niwclear yn hollol anymarferol.

Yn y cyfamser, mae polisi ynni diweddaraf Llywodraeth Cymru yn gwneud tro pedol enfawr drwy gefnogi'n frwd gorsaf bŵer niwclear newydd yn yr Wylfa ar Ynys Môn. Neu a ydyw? Dywedodd y Prif Weinidog Carwyn Jones mai'r unig reswm y mae'n cefnogi niwclear newydd yn yr Wylfa yw oherwydd bod hen orsaf bŵer niwclear yno'n barod. A yw hwn yn rheswm digon da mewn gwirionedd dros fynd yn ôl at dechnoleg sydd wedi chwythu'i phlwg?

Mae'r ychydig gwmnïau sydd ar hyn o bryd yn dangos brwdfrydedd o blaid

niwclear y DU yn dweud y byddant ond yn adeiladu niwclear newydd os cânt sicrwydd o brisiau trydan yn y dyfodol - pedair gwaith cost trydan presennol. Wrth i gostau trydan adnewyddadwy ostwng yn gyflym, mae'n anodd gweld sut y gellir sicrhau'r prisiau hyn am niwclear.

Rhag i ni ddod yn hunanfodlon, rhaid cofio bod gwaith eisoes ar droed yn Hinkley Point, Gwlad yr Haf, llai na 30 milltir o rai o ardaloedd mwyaf poblog Cymru. Er gwaethaf y ffaith fod niwclear fel petai'n nesáu at ddiwedd ei oes, mae bygythiad gorsaf bŵer niwclear yn yr Wylfa yn golygu ei fod yn gwneud ei orau i oroesi.

Mae'n amlwg nad oes rôl i bŵer niwclear yng Nghymru - rhaid defnyddio'r arian a'r ewyllys gwleidyddol yn y manau lle gall fynd i'r afael â newid hinsawdd a gwella ein sicrwydd ynni, yn ddiogel a darbodus. Mae hynny'n golygu effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy.

## Cartrefi cynnes i Gymru

Mae un o bob pedwar o bobl Cymru yn byw mewn tldi tanwydd, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt wario ragor na 10 y cant o incwm y cartref i gadw'n gynnes. Tai sy'n gyfrifol am un rhan o bump o allyriadau nwy tŷ gwydr yng Nghymru. Felly, dyna ddau reswm da iawn pam fod gwella ansawdd tai yng Nghymru yn dda i bobl, ac yn dda i'r amgylchedd.

Mae cynllun ynni cartref Llywodraeth Cymru, Arbed, eisoes wedi gwella 7,500 o gartrefi gyda mesurai megis gosod boeleri effeithiol, insiwleiddio welydd a phaneli solar ffotofoltaig. Bwriedir gwella 5,000 arall erbyn 2015. Ond mae mynd i'r afael o ddifrif â'r broblem yn golygu gwella 400,000 o gartrefi yn y 10 mlynedd nesaf.

Rhwystyr enfawr yw'r cartrefi rhent

preifat sydd ddwywaith mwy tebygol o fod ag effeithlonrwydd ynni gwael na thai eraill, felly mae'r bobl dlotaf yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tai o ansawdd gwael.

Mae cyfraith tai newydd sydd i ddod gan Lywodraeth Cymru yn yr hydref yn gyfle gwych i wella ansawdd tai yng Nghymru, yn ogystal â diogelu hawliau tenantiaid yn well. Ond rhaid iddi osod isafswm safonau ar gyfer effeithlonrwydd ynni mewn tai rhent - mesur syml ond effeithiol a allai olygu tai cynhesach, a lleihad mawr mewn allyriadau nwy tŷ gwydr.

Am ragor o wybodaeth ar beth hoffen ni weld yn y Bil Tai ewch i:  
[www.foe.co.uk/cymru-tai](http://www.foe.co.uk/cymru-tai)

## Gallai Cymru gael ei ffracio

Os ydych chi'n un o'r 2 filiwn o bobl yng Nghymru sy'n byw mewn ardaloedd sy'n cael cynnig trwyddedau olew a nwy ar y tir, yna gallai ffracio ddod i'ch ardal chi. Pe bai nifer uchel o ardaloedd yn derbyn ffracio - drilio dadleuol am nwy siâl sy'n chwistrellu hylif ar bwysedd uchel i greigiau tanddaearol - byddai'n golygu diwedd ar ein hymrwymadau lleihau nwyon tŷ gwydr a hefyd difrod amgylcheddol ar raddfa ddiwydiannol.

Dywed arbenigwyr yng Nghanolfan Tyndall na ellir cysoni echdynnu nwy siâl ar raddfa fawr gyda'r lleihad mewn allyriadau sydd ei angen er mwyn osgoi newid hinsawdd peryglus. Os ydym am fynd i'r afael â'n hallyriadau cynyddol, rhaid i Gymru aros yn wlad sy'n rhydd o ffracio. Gweithredwch a dysgwch ragor:

[www.foe.co.uk/cymru-ynni](http://www.foe.co.uk/cymru-ynni)

## Ynni anghonfensiynol

Mae ffracio, drilio am olew yn yr Arctig a nweyddio glo dan ddaear (UCG) i gyd yn ffynonellau ynni 'anghonfensiynol' - sy'n golygu bod eu hechdynnu yn anoddach, yn fwy costus ac yn cynhyrchu rhagor o CO2 na nwy ac olew arferol.

Ond wrth i danwyddau ffosil brinhau a chost ynni gynyddu, mae'r brys i elwa o ynni anghonfensiynol yn cyflymu. Gallai UCG fod ar ei ffordd i Gymru, gan fod Bae Abertawe a Moryd Casllwchwr wedi bod yn darged ar gyfer y gweithgaredd.

## Terfyn cyflymder 20mya

Byddai strydoedd ein trefi a phentrefi yn llawer mwy diogel pe bai'r cyflymder diofyn yn cael ei ostwng o 30mya i 20mya. Mae terfynau cyflymder 20mya yn lleihau'n sylweddol damweiniau, gyda lleihad mawr mewn anafedigion ifanc. Maent hefyd yn annog rhagor o bobl i gerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, sy'n lleihau problemau iechyd, yn gwella ansawdd yr aer ac yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae damweiniau traffig yn effeithio'n annheg ar y tlotaf mewn cymdeithas - mae plant o'r grŵp economaidd gymdeithasol isaf yng Nghymru bum gwaith yn fwy tebygol o gael eu hanafu mewn gwrthdrawiadau gyda cherbydau na phlant o'r grŵp economaidd gymdeithasol uchaf. Rydym y mynnu newid polisi gan Lywodraeth Cymru i wneud Cymru yn lle mwy diogel, pleserus gyda llai o niwed i'r amgylchedd.

# Grwpiau lleol yng Nghymru



Suzannah Evans (chwith) o Gyfeillion y Ddaear Casnewydd gyda Pippa Bartolotti, arweinydd Plaid Werdd Cymru, yn barod i ollwng balwnau 'rhybudd niwclear' y tu allan i orsaf bŵer Hinkley Point

**Casnewydd** Mae gan Gasnewydd yng Ngwent weithgareddau gydol y flwyddyn ar gyfer y rhai sy'n meddwl yn wyrdd, diolch i grŵp lleol Cyfeillion y Ddaear. Bob mis Mawrth ceir stondinau, gweithgareddau a ffilmiau yn y Ffair Werdd a Moeseg tra cynhelir y Clwb Ffilmiau Gwyrdd bob yn ail fis drwy'r flwyddyn. Bob hydref mae'r grŵp yn trefnu gweithgaredd plannu coed, a'r llynedd ymunodd Jessica Morden AS a Gweinidog yr Amgylchedd ar y pryd, John Griffiths, i helpu gyda'r palu.

Lansiwyd Canolfan WERDD Casnewydd gan y grŵp er mwyn annog cydweithrediad ar brosiectau cymunedol, ac ar hyn o bryd mae'n sefydlu canolfan amgylcheddol yn y ddinas. Bydd y ganolfan, a fydd yn agor yn fuan, yn cynnig amrywiaeth o weithdai gwyrdd ymarferol.

Bu hefyd ymgyrchu cryf ar faterion o bwys. Mewn cyfarfod cyhoeddus amlygwyd pa mor agos yw'r gorsafoedd ynni niwclear arfaethedig yn Swydd Gaerloyw a Gwlad yr Haf i gymunedau yn Ne Cymru, tra ymunodd rhai aelodau o'r grŵp gyda channoedd o bobl i brotestio tu allan i safle Hinkley Point yng Ngwlad yr Haf.

Mae Cyfeillion y Ddaear Casnewydd yn rhan o'r Ymgyrch yn erbyn Llosgydd Casnewydd (SNIC) a wrthwynebodd llosgydd gwastraff arfaethedig. Mae'r grŵp hefyd yn cadw llygad barcud ar drafodaethau ynglŷn ag estyniad i'r M4 a bydd yn cefnogi dim ond y dewisiadau mwyaf angenrheidiol a'r lleiaf niweidiol.

## Llangollen

Mae Cyfeillion y Ddaear Llangollen wedi lansio 'Llangollen Gynaliadwy', clymblaid o grwpiau lleol sy'n ymwneud â materion cymdeithasol ac amgylcheddol. Eu prosiectau cyntaf, sydd yn denu diddordeb mawr, yw gardd gymunedol a chanolbwynt cymunedol i'r dref.

Mae bygythiad archfarchnad newydd, fodd bynnag, yn parhau fel cwmwl dros y dref ac mae'r grŵp yn parhau i ymgyrchu'n gryf yn ei erbyn.

## Caerffili

Mae grŵp Caerffili, enillydd Gwobr Grŵp y Flwyddyn 2011 Cyfeillion y Ddaear, wedi ymgyrchu'n llwyddiannus ar gyfer dau dyrbin gwynt mewn parc busnes lleol, a gweithio gyda Chyngor ar Bopeth i gynnig monitorau ynni cartref i drigolion i'w cynorthwyo i leihau eu defnydd ar drydan.

Mae'r grŵp hefyd yn cynnal Ffair Nadolig Werdd a digwyddiad Hau a Thyfu yn y gwanwyn lle gallwch brynu neu gyfnwedd planhigion a hadau.

### GWNEWCH WAHANIAETH

Chwaraewch ran gyda grŵp lleol yn eich ardal chi

1. Aberhonddu	9. Castell-nedd Port Talbot	16. Trefynwy
2. Abertawe	10. Conwy a Llandudno	17. Torfaen
3. Aberystwyth	11. Llangollen	18. Sir Benfro
4. Caerdydd	12. Merthyr Tudful	19. Sir y Fflint
5. Caerffili	13. Môn a Gwynedd	20. Wrecsam
6. Caerfyrddin	14. Pontypridd a'r cylch	21. Y Barri
7. Cas-gwent	15. Pen-y-bont	22. Y Fenni a Chrucywel
8. Casnewydd		

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 02920 229 577

neu ewch i [www.cyddcymru.co.uk](http://www.cyddcymru.co.uk)

## Pontypridd

Tamaid Bychan Cymreig yw fersiwn cynaliadwy grŵp Pontypridd o ŵyl Cegaid o Fwyd Cymru y dref, sy'n hyrwyddo bwyd lleol o ansawdd da.

Roedd y Tamaid cyntaf yn cynnwys arddangosiadau coginio gan y Cogydd Seren Michelin Franco Taruschio, ynghyd a stondinau, sgysia, cerddoriaeth a ffilmiau.

Yng Ngwledd Afalau'r Hydref dysgodd blant ysgol lleol sut i wasgu afalau a phlannu nifer o goed ffrwythau.

## Aberystwyth

Mae Cyfeillion y Ddaear Aberystwyth wedi bod yn cyfarfod â'u gwleidyddion lleol i'w argyhoeddi o beryglon newid hinsawdd a'r cyfleoedd a'r swyddi gwyrdd allai ddod i'r ardal o ddatblygu rhagor o ynni adnewyddadwy a gwella effeithlonrwydd ynni.

Maent hefyd wedi bod yn cefnogi pŵer gwynt yn y cyfryngau lleol ac yn cynnal stondin yn cefnogi ymgyrch Cadw Gwenyn.

# Yn y Cynulliad

Mae newidiadau o fewn y cabinet yn golygu bod y cyfrifoldeb am yr amgylchedd wedi ei daenu'n eang ar draws gweinidogion Llywodraeth Cymru. Ond a fydd er gwell neu er gwaeth?

Mae wedi digwydd o'r diwedd. Ar ôl blwyddyn o sion, ym mis Mawrth ail-drefnodd y Prif Weinidog Carwyn Jones ei gabinet. Llwyddodd i osgoi diswyddo neb, dod â dau wyneb newydd mewn a gwneud rhai newidiadau allai gael effaith mawr ar yr amgylchedd yng Nghymru.

Y syndod cyntaf yw nad oes gan yr un gweinidog nag adran llywodraeth y term 'amgylchedd' na 'datblygiad cynaliadwy' yn eu teitlau. Mae cyfrifoldebau hen adran yr amgylchedd wedi eu rhannu rhwng pedwar, os nad pump, o wahanol weinidogion.

Caiff Alun Davies, dirprwy weinidog dros amaethyddiaeth yn flaenorol, ei ddyrchafu'n Weinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd. Mae ganddo gyfrifoldeb yn awr dros lawer o'r portffolio amgylcheddol, gan gynnwys newid hinsawdd, ynni, gwastraff, ac amaethyddiaeth. Mae gan Alun Davies enw da ers tro am ymwybyddiaeth o newid hinsawdd a'i effaithiau rhyngwladol. Roedd yn rhan o weithgareddau ieuencid cysylltiedig a'r Uwchgynhadledd Rio gwreiddiol 20 mlynedd yn ôl a gweithiodd i Oxfam a'r WWF. Mae'n dda gweld ynni yn ôl yn y briff - gobeithio bydd hyn yn golygu arweiniad cliriach ar ynni adnewyddol.

Gydag amaethyddiaeth ac ynni wedi eu hychwanegu at swydd weinidogol a oedd eisoes yn llawn, roedd hi'n anochel bod yn rhaid i ryw beth fynd. Ond anodd deall sut y gall materion mor gysylltiedig â chynllunio, datblygu cynaliadwy a newid hinsawdd gael eu harwain gan dri gweinidog gwahanol.

Mae'r dasg anferth o symud Cymru tuag at ddyfodol cynaliadwy a llywio'r Bil Datblygu Cynaliadwy newydd yn mynd i Huw Lewis. Y gobaith yw y bydd ei brofiad o fyw yn a chynrychioli ardal gyda chymaint o broblemau amgylcheddol â Merthyr Tudful a Rhymni yn ei ysgogi i arwain y ffordd at fil cadarn. Mae ei friff llawn ac amrywiol hefyd yn cynnwys cymunedau a thlodi, diwygio lles, teuluoedd, plant, cyfle cyfartal a'r sector gwirfoddol. Mae'r fwyddyn nesaf yn amser mor dyngedfennol i gael y Bil Datblygu Cynaliadwy yn iawn, mae angen iddo fod yn brif flaenoriaeth - gobeithio na chaiff ei

golli mewn briff mor brysur.

Carl Sargeant, cyn-weinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, sy'n cael cyfrifoldeb am dai ac adfywio, gan gynnwys maes allweddol cynllunio. Yn ogystal â'r Bil Tai, y gobeithiwn fydd yn gwella'n syfrdanol effeithlonrwydd ynni y stoc tai presennol, bydd yn wynebu'r prosiect heriol o ddiwygio'r system cynllunio yng Nghymru. Fel cyn-weinidog llywodraeth leol bydd ganddo brofiad o amryw heriau maes cynllunio a gobeithio y bydd yn ymwybodol o'r anghydwysedd grym presennol rhwng datblygwyr a thrigolion lleol. Ond a fydd yn cefnogi ein galwad am hawl apelio trydydd parti i gymunedau yr effeithir arnynt gan benderfyniadau cynllunio?

Mae un o'r gweinidogion mwyaf hirhoedlog, Edwina Hart, yn ychwanegu trafndiaeth i'w briff ar yr economi. Ond nid oes cyfeiriad at y rhan o'r economi sy'n tyfu gyflymaf - yr economi werdd. Ac mae cerdded a beicio, gan gynnwys y Bil Teithio Llesol, wedi eu gwahanu o drafndiaeth a'u rhoi i'r cyn Weinidog dros yr Amgylchedd, John Griffiths, sy'n Weinidog Diwylliant nawr.

Gobeithio nad yw hyn yn adlewyrchu'r modd y gwelir trafndiaeth, gyda ffyrdd a rheiffyrdd yn ddulliau teithio, a cherdded a beicio yn ddim ond materion hamdden. Ond mae'n newydd da y bydd John Griffiths yn dal i chwarae rhan yn gwyrrddu dyfodol Cymru.

Gallai optimist ddweud bod yr ail-drefnu hwn yn arwydd bod y cabinet cyfan yn cymryd ei gyfrifoldeb dros fynd i'r afael â newid hinsawdd ac adeiladu dyfodol cynaliadwy o ddifrif. Gallai pesimist ddweud ei fod yn symud y ffocws oddi wrth yr amgylchedd fel ystyriaeth cynllunio ganolog, a'r prif ysgogiad y tu ôl i ddatblygu cynaliadwy. Yr hyn sy'n sicr yw y bydd angen mwy o ymdrech ar draws llywodraeth yn awr os nad yw'r amgylchedd i gael ei fwrw o'r neilltu, ac os yw ymrwymadau maniffesto i'w bodloni - a bydd yn rhaid i Carwyn Jones gymryd cyfrifoldeb am hyn.

Nid oes amser i gyfarwyddo a'u



Haf Elgar, Ymgyrchydd Cyfeillion y Ddaear Cymru

**Bydd angen mwy o ymdrech os nad yw'r amgylchedd i gael ei fwrw o'r neilltu – a rhaid i Carwyn Jones gymryd cyfrifoldeb**

rolau newydd wrth i filiau'r llywodraeth ddod yn aml ac yn fynych a digonedd o ymgynghoriadau a digwyddiadau rhanddeiliaid i'n cadw'n brysur. Yn awr mae gwir brawf y broses ddeddfwriaethol yn dechrau, gyda chraffu a newidiadau gan bwyllgorau trawsbleidiol.

Dechreuodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ei dymor gyda Dafydd Elis-Thomas fel y Cadeirydd profiadol a naw AC newydd. Ond erbyn hyn mae wedi ei hen sefydlu, a gydag amryw feddwl craff cyfreithiol ymysg ei aelodaeth ac ystod eang o brofiad ymhlith llefarwyr y pleidiau, gall tystion fod yn sicr y cânt eu holi'n drwyadl. Roedd ei ymchwiliad blwyddyn o hyd a'i adroddiad dilynol ar ynni a chynllunio yn ddarn sylweddol o waith sydd wedi ennyn parch a phrofi gwerth.

Mae'r Pwyllgor Deisebau yn sefydlogi ei hun yn gynyddol ac yn dangos ei werth, yn cynnwys derbyn deisebau oddi wrthym ni ac eraill ar ffracio a llosgyddion.

Mae gwahaniad cliriach rhwng Cymru a San Steffan nag a fu erioed o'r blaen, gyda llawer mwy o wrthdaro yn sesiynau'r Senedd. Gyda'r Rhyddfrydwy Democrataidd a Phlaid Cymru ill dau wedi cefnogi cyllideb y llywodraeth yn y ddwy flynedd diwethaf, nid yw'n ymddangos bod unrhyw un yn awyddus i ddymchwel y llywodraeth, gyda diffyg mwyafrif y llywodraeth yn hytrach yn cael ei weld fel modd i fargeinio. Gobeithiwn fodd bynnag nad yw'n mynd yn rhy gyfeillgar i lawr yn y bae ac y bydd Aelodau Cynulliad yn dal i herio'r llywodraeth pan fo angen ●

# Pobl Cymru yn

# gweld byd gwahanol

Mae gan Gymru draddodiad hir o arwain y byd mewn gwneud pethau'n wahanol. O ystyried maint yr heriau amgylcheddol a wynebir gennym, a yw'n bryd bod yn radical unwaith eto?

O'r Siartwyr i ferched Comin Greenham, o Raymond Williams i Aneurin Bevan, mae rhai o feddylwyr a gweithredwyr mwyaf arloesol y byd wedi dod o Gymru. Roedd y rhain yn bobl a gododd eu llais yn erbyn y norm gan wrthod derbyn anghyfiawnder y status quo. Nid dim ond gweld problemau a wnaethant, ond darganfod atebion - fe wnaethant chwilio am newid, syniadaeth newydd, y ffordd ymlaen. Fe wnaethant weld y byd yn wahanol.

I lawer o'u cyfoedion efallai eu bod yn radicaliaid peryglus, heb gyd-fynd gyda synnwyr cyffredin eu cyfnod. Eto dangosodd hanes bod llawer ohonynt yn wir arweinwyr, rhagflaenwyr cyfnod tecach a mwy blaengar.

Roedd y mudiadau a'r bobl hyn wedi eu seilio yn aml ar egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol a chymunedau cryf - yr union werthoedd y mae'n rhaid i ni droi atynt nawr i fynd i'r afael â gofidiau amgylcheddol ac economaidd. Mae cefnogwyr ac ymgyrchwyr Cyfeillion y Ddaear wedi sylweddoli ers amser hir bod lles pobl a'r blaned yn mynd law yn llaw. Lle gwelodd eraill broblemau sy'n well eu anwybyddu, gwelsom ni yn hytrach ddatrysiadau yn aros i ddigwydd.

Ond eto, hyd yn oed â llawer o'r byd yn baglu o un argyfwng economaidd i chwyldro ac yn ôl unwaith eto, mae llawer o wleidyddion yn y DU yn cadw at yr agwedd busnes fel arfer sy'n

cynnig nemor ddim cyfle i'r newidiadau sydd eu hangen arnom i ddigwydd. Ond mae gwleidyddion yng Nghymru yn aml yn gweld y byd yn wahanol i wleidyddion San Steffan, gyda phob un o'r prif bleidiau gwleidyddol yn awyddus i ddangos eu harwahanrwydd Cymreig. A nawr gyda 'gweriniaethwraig sosialaidd' y Rhondda, Leanne Wood, yn arweinydd Plaid Cymru, gallai ychydig o radicaliaeth fod yn dod yn ôl i brif ffrwd gwleidyddiaeth - yng Nghymru o leiaf.

Pan gyhoeddodd 'Cynllun Gwyrdd y Cymoedd' yn 2011 yn awgrymu bwyd lleol ac ynni adnewyddol wedi ei ganolbwyntio ar y gymuned fel y llwybr i adfywiad economaidd, byddai rhai wedi ei weld fel manifest o breuddwydwraig wleidyddol. Ond dim ond blwyddyn yn ddiweddarach etholwyd Leanne Wood yn arweinydd un o brif bleidiau gwleidyddol Cymru. Gofynon ni i Ms Wood p'un a oedd angen i ni nawr weld pethau'n wahanol er mwyn cael Cymru decach a mwy cynaliadwy. Ac ai nawr yw'r amser gorau i'r syniadau hyn fwrw'u gwreiddiau yn ein cymunedau, a threiddio i mewn i bolisi llywodraeth?

Rydym hefyd wedi gofyn i ddau ymgyrchydd amgylcheddol, gyda mwy nag ychydig o hanes o weld pethau'n wahanol, a ddylem ni fod yn meddwl yn fyw radicalaidd am y newid a ddymunwn. Felly, efallai bod newid ar droed wedi'r cyfan.

## Deddf radical

Gallai deddf newydd yng Nghymru ein harwain tuag at ddatblygu cynaliadwy. Ond rhaid iddi fod yn ddigon cryf i greu dyfodol teg a gwyrddach i bawb

Mae byw'n gynaliadwy yn golygu peidio â thrin adnoddau ein planed fel pe baent yn ddiderfyn ac yn mynd i bara am byth. Golyga dim ond defnyddio ein cyfran deg yn hytrach na llyncu cymaint ag y gallwn ar draul y rheiny mewn gwledydd eraill a chenedlaethau'r dyfodol. A golyga gwella ansawdd bywyd i bawb, gan aros o fewn terfynau amgylcheddol ein planed.

Pan sefydlwyd y Cynulliad ym 1998 daeth Cymru yn un o ychydig wledydd yn y byd i gael dyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Ond mae'n parhau

i fod dim ond yn ddyletswydd i ystyried heb reidrwydd i weithredu, ac mae wedi ei gyfyngu i Lywodraeth Cymru. Ond eto gallai llawer o gyrff cyhoeddus - megis cynghorau, awdurdodau heddlu ac iechyd - gynorthwyo i wneud i ddatblygu cynaliadwy ddigwydd yng Nghymru.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn paratoi deddf datblygu cynaliadwy. Ond mewn gwlad gyda safleoedd glo brig anferth, chwarter y boblogaeth yn byw mewn tloedi tanwydd ac ardaloedd â lefelau uchel o lygredd aer, bydd angen

**yn parhau ar y dudalen nesaf**





## Leanne Wood AC Arweinydd Plaid Cymru

“ Credaf fod gwir ddyhead am syniadaeth wahanol i'r hyn aeth o'r blaen, ac mae agweddau cynaliadwyedd hyn yn bwysig.

Ers amser cefais fy ysgogi gan faterion cydraddoldeb, cyfiawnder a thlodi. Ac yna'n sydyn, sylweddolais mai'r bobl ar y cyflogau isaf ac yn safleoedd mwyaf difreintiedig, nid dim ond yng Nghymru ond ar raddfa fyd-eang, sy'n cario pen trymaf effaith newid hinsawdd.

Credaf y gallai'r Cynulliad fod yn llawer cryfach o ran cyrraedd y targedau ar gyfer gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Rwyf wedi fy siomi yn arbennig wrth weld diffyg gweithredu ar lefel awdurdodau lleol. Y realiti gwleidyddol yw bod Llywodraeth Cymru yn cael trafferth cyflawni gostyngiadau mewn allyriadau. Yr her i ni yw gwthio newid hinsawdd yn ôl ar yr agenda fel mater gwleidyddol allweddol. Pasiodd Plaid Cymru bolisi yn ymrwmo i ostyngiad blynyddol gan 9% yn 2009, ac i ni does dim wedi newid.

Mae'n rhaid i dwf economaidd ddigwydd mewn ffordd gynaliadwy, neu fel arall rydym yn storio problemau ar gyfer y dyfodol. Mae'r heriau'n fawr iawn ond mae gennym rywfaint o obaith drwy fabwysiadu dull mwy lleol, datganoledig. Gyda chymunedau sydd mor hunangynhaliol â phosibl mewn ynni adnewyddol a bwyd, gallent fod yn gynaliadwy a thyfu'n economaidd yn ogystal. Rwyf am weld pobl yn ymwneud â phrosiectau a fydd yn cynorthwyo i adeiladu gwytnwch a chynaliadwyedd i'n heconomi ac i'n cymunedau.

Mae'n bwysig annog cymunedau, boed hynny ynglŷn â chyfraddau ailgylchu neu gynhyrchu ynni adnewyddol. Rhoi'r cyfrifoldeb i'r gymuned ei hun i gyflawni, ac i benderfynu sut y gwnânt gyflawni, eu targedau a gytunir yn lleol.

Dyna'r ffordd ddatganoledig.



## Karina Russell

### Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro

“ Bûm yn ymwneud ag ymgyrchoedd sy'n chwilio am newid erioed. Ond gan fod newid hinsawdd mor anniriaethol mae wedi bod yn anodd i bobl gymryd rhan. Eto i gyd, mae'r wyddoniaeth a'r arwyddion i gyd yn dweud ei fod yn berygl mawr i bawb ohonom.

Dwi'n credu y dylen ni fod yn gorymdeithio ar y strydoedd, yn gweiddi drwy gyrr siarad, dylai fod gwrthdystiadau enfawr yn dweud wrth ein llywodraethau bod rhaid gwneud rhagor. Ie, dylai pawb wneud rhagor, ond mae angen i wleidyddion roi arweiniad. A dwi'n credu pe bai gwleidydd yn cymryd safiad, bydden nhw'n synnu cymaint o bobl sy'n gefnogol.

Gallem fod yn gwyrddio'r economi, yn gwneud arian ac yn gwneud rhywbeth ynglŷn â newid hinsawdd, ond mae'n ymddangos nad oes neb yn barod i gymryd y camau radical sydd eu hangen.



## Kelvin Mason

### Academydd ac ymgyrchydd

“ Mae ymgyrchwyr yng Nghymru yn rhannu synnwyr arbennig o gyfiawnder ac ymwybyddiaeth gall Cymru gael ei hymyleiddio - gwyddwn bod rhaid i ni weiddi'n uwch i gael ein clywed. Ond y frwydr yw cael rhagor o bobl yn weithgar yn wleidyddol mewn cymdeithas

sydd wedi ei strwythuro i gyflawni'r gwrthwyneb. Mwyaf i gyd y cymerwn gyfrifoldeb am ein hynni, gwastraff a bwyd mwyaf i gyd rym ni'n gwybod o ble daw'r cyfan a lle mae'n mynd - ac y gwnewn ni rhywbeth er gwell. Rhaid ailstrwythuro gwleidyddiaeth o'r bôn i'r brig. I gyfeithu can Billy Bragg, "Daw newid ddim oddi uchod!"

Mae ymgyrchoedd fel Occupy yn rhoi gobaith i mi. Mae angen meddwl gwir radical arnom, dyn ni ddim yn gofyn y cwestiynau cywir i'n hunain ac yn rhy barod i ddweud "gallwn ni ddim". Ond i berswadio pobl bod gwerth gofyn cwestiynau radical, rhaid i'r atebion fod yn bwysig i'w bywydau bob dydd.



deddf gref i wneud gwahaniaeth radical.

Y Gweinidog newydd sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu cynaliadwy yw Huw Lewis. Fel AC ar gyfer Merthyr Tudful a Rhymni, sy'n cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru a'r DU, mae'n gwybod yn iawn am rai o'r problemau.

Ond hyd yn oed os gallwn rhoi Cymru ar y llwybr i ddatblygu cynaliadwy, a all ein gwlad fechan wneud gwahaniaeth gwirioneddol? Mae pobl yng Nghymru yn sicr yn meddwl y dylem. Dengys arolwg cyhoeddus diweddar gan Gonsortium

Newid Hinsawdd Cymru bod 80% ohonom yn pryderu am effaith newid hinsawdd ar y byd sy'n datblygu, ac mae bron i dri chwarter yn credu y dylai Cymru ddangos esiampl i'r byd ynglŷn â gweithredu ar yr hinsawdd. Mae hyn yn anfon neges gref i Lywodraeth Cymru bod trwch pobl Cymru yn cefnogi cymryd cyfrifoldeb am ein canlyniadau byd eang ar bobl a'r blaned.

Rydym yn rhan o gynghrair o sefydliadau sy'n ymgyrchu am fil cadarn. Nawr yw ein cyfle i Gymru wir arwain y byd. Rhaid peidio â cholli'r cyfle hwn.

### Rhaid i Fil Datblygu Cynaliadwy:

**Ddiffinio datblygiad cynaliadwy yn glir a sut y gall weithio yng Nghymru**

**Gosod dyletswydd gref ar gyfrif cyhoeddus i weithredu gyda'r amcan o sicrhau datblygu cynaliadwy**

**Creu Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy annibynnol a chryff**

[www.foe.co.uk/datblygu-cynaliadwy-cymru](http://www.foe.co.uk/datblygu-cynaliadwy-cymru)

# Peilonau a phŵer

Mae twf ynni adnewyddadwy wedi arafu yng Nghymru. Ai protestiadau ynghylch peilonau neu ddiffyg arweiniad gan Lywodraeth Cymru di-bŵer sy'n sefyll yn y ffordd?

Ychydig o bobl sy'n dweud eu bod yn caru peilonau trydan, er bod llawer ohonom yng Nghymru wedi cynefino â hwy dros y blynyddoedd. Ond os oes rhaid i ni gael rhagor o wifrau trydan ar draws Cymru, pam na ellir eu gosod dan ddaear? Bellach mae gyda Cyfeillion y Ddaear Cymru dystiolaeth gadarn, ar ôl dadansoddiad annibynnol manwl o gostau cysylltiadau grid i ffermydd gwynt, y gallai cysylltiadau i'r grid yn y mwyafrif o achosion gael eu gosod o dan ddaear am gost sy'n dderbyniol.

Mae'r ddrychiolaeth o weld peilonau enfawr yn gorymdeithio ar draws Powys wedi ei ddarlunio'n gryf ac effeithiol gan y lleiafrif uchel eu llais sy'n gwrthwynebu ynni gwynt yng Nghymru. Eto, awgryma arolwg diweddar bod 88% o bobl Cymru am weld llawer mwy o drydan yn cael ei gynhyrchu gan wynt, tonnau a'r haul. Ai diffyg gweledigaeth Lywodraeth Cymru o blaid ynni gwynt sydd wedi caniatáu i'r grwpiau gwrthwynebu atseinio'n uwch nag a fyddai wedi ei wneud fel arall?

Diolch byth, gwelwyd arwyddion yn ddiweddar bod Llywodraeth Cymru wedi cryfhau ei safbwynt ar ynni adnewyddadwy. Bydd llawer sy'n gweithio yn y sector ynni adnewyddadwy wedi eu calonogi gan rhan fwyaf polisi ynni diweddaraf y Llywodraeth. Ond, fel ag erioed, dim ond rhywfaint o'r ffordd yr aiff geiriau mewn dogfen bolisi. Mae angen llais cyson o gyfeiriad gweinidogion sy'n datgan bod Cymru yn barod i wneud busnes gyda chwmnïau ynni adnewyddadwy - a'n bod yn awyddus i

## Comisiwn Silk

Wedi'i sefydlu gan Lywodraeth y DU i ddod i gasgliad ynghylch datganoli pwerau treth a pholisi ychwanegol i Gymru, cyhoeddior adroddiad terfynol y Comisiwn yng ngwanwyn 2014. Deddir ein tystiolaeth i'r Comisiwn dros ddatganoli yr holl bwerau dros ynni i'r Cynulliad Cenedlaethol.

ddatblygu'r sector gymunedol yn arbennig.

Mae cyn-Weinidog yr Amgylchedd Cymru, John Griffiths, wedi cytuno bod "gan Gymru bosibiliadau enfawr... mae angen cymysgedd ac mae angen i ynni gwynt fod yn rhan hollbwysig o hwnnw... Rydym angen pwerau cydsynio pellach ar gyfer prosiectau ynni yma yng Nghymru, a phe bai gennym y rhain byddem yn gallu cynnig sefyllfa llawer mwy sicr a sefydlog yma ar gyfer cwmnïau ynni."

Rydym yn cytuno'n llwyr ynglŷn â hyn. Mae gennym hefyd y dystiolaeth i gefnogi ein barn. O gymharu â Lloegr a'r Alban, mae Cymru wedi perfformio'n wael ym maes ynni adnewyddadwy. Yn 2003 roedd gan Gymru 40% yn fwy o allu ynni gwynt na Lloegr a tipyn yn llai na'r Alban. Erbyn 2011, roedd gan y ddwy wlad pum gwaith cymaint o'r gallu ag sydd gan Gymru.

Yn y cyfamser mae gweithiau ynni ffosil budr wedi bod yn ymddangos ar draws Cymru. Fesul pen o'r boblogaeth, mae bron i bedair gwaith cymaint o allu anadnewyddadwy wedi ei osod yng Nghymru nac yn Lloegr ers 2005 a dros saith gwaith yn fwy na'r Alban.

Mae'r gymhariaeth â'r Alban yn dweud cyfrolau. Yn gyntaf, mae polisi Llywodraeth yr Alban ar ynni adnewyddadwy yn llawer cryfach nag un Llywodraeth Cymru, gan ddatgan bod dyfodol yr Alban yn gorwedd gyda'r dechnoleg werdd, ac mae ynni adnewyddadwy yn rhan gref o hynny. Mae meddu'r pwerau a'r offer, megis y Ddyletswydd Ynni Adnewyddadwy, i gefnogi'r polisi hwn yn gymorth mawr i ddenu busnesau i'r Alban.

Yr ail ffactor yw niwclear. Fel canlyniad i benderfyniad Llywodraeth yr Alban i beidio â chaniatáu unrhyw orsafoedd ynni niwclear newydd, mae'r diwydiant ynni adnewyddadwy yn gwybod nad yw'n cystadlu â niwclear am gyfran o'r seilwaith cynhyrchu trydan.

Yn drydydd rhaid i darged ynni adnewyddadwy Llywodraeth yr Alban - ei fod yn cynhyrchu 100 y cant o'i alw am ynni erbyn 2020 - gael ei gyrraedd yn llwyr gan brosiectau yn yr Alban. Mae polisi clir



Gareth Clubb, Cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru

**Mae angen llais cyson o gyfeiriad gweinidogion sy'n datgan bod Cymru yn barod i wneud busnes gyda chwmnïau ynni adnewyddadwy**

yn dibynnu ar benderfyniadau sy'n llwyr o fewn pŵer Llywodraeth yr Alban - a'r Llywodraeth felly fydd yn cael ei dwyn i gyfrif.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru rôl sylweddol mewn penderfynu prosiectau ynni mawr. Mae'r pŵer hwn gydag Adran Ynni a Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU. Mae'n rhaid i'r Adran fodloni ei thargedau UE, ac mae'n canolbwyntio ar lle gall symiau mawr o ynni adnewyddadwy gael ei gynhyrchu'n gyflym. Golyga hyn ffermydd gwynt ar y môr, y rhan fwyaf oddi ar arfordir dwyreiniol Lloegr.

Felly, nid yw'n syndod o gwbl bod Cymru yn llusgo mor wael y tu ôl i'r Alban, gan fod yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn anwybyddu dyheadau Llywodraeth Cymru yn llwyr.

Nid yw gwneud penderfyniadau yn Lloegr ar brosiectau ynni wedi bod o fudd i Gymru. Mae ein gosodiadau ynni adnewyddadwy i bob pwrpas wedi arafu. Gwelir Cymru fel lle cyfleus i ddatblygu ynni gan danwyddau ffosil, oherwydd bod gwrthwynebiad i ddatblygiadau diwydiannol sy'n llygru yn llai tebygol yn y DU.

Felly, mae datganoli'r pwerau hyn yn bwysig i bawb yng Nghymru os nad ydym am gael rhagor o orsafoedd ynni tanwydd ffosil wedi eu llwytho arnom, ac os ydym am i Gymru gael rhan yng ngweithrediad yr economi werdd. Mae'n debyg mai dyma'r unig ffordd y gallwn gynhyrchu'r ynni gwyrdd glân sydd ei angen arnom ●



Cadw Gwenyn

# Rydym ni eu hangen nhw. Nawr mae nhw ein hangen ni

Mae Llywodraeth Cymru wedi addo helpu ein gwenyn. Nawr mae'n rhaid i Lywodraeth y DU wneud yr un peth – a gallwch chi helpu hefyd

Ar ddiwrnod heulog yng ngogledd Cymru mae murmur tyner traffig cyson. Ond nid yw'r traffig hwn yn llygru'r aer nac yn chwydu carbon deuocsid. Mae hwn yn draffig sydd ei wir angen arnom - a gallai fod yn diflannu.

Mae Stephen Thomas o Ddysarth ger Y Rhyl yn mwynhau'r pleserau syml a ddaw yn sgil cadw gwenyn. "Bob tro mae'r tywydd yn gynnes mae murmur cyson gwenyn yn y cefndir", meddai.

Ond mae Stephen hefyd yn ymwybodol bod ei ddiddordeb amser hamdden yn fuddiol i'r amgylchedd ac yn y pen draw i bawb ohonom gan fod niferoedd gwenyn yn gostwng yn ddifrifol.

"Mae gwenyn wedi wynebu amrywiaeth o broblemau yn ddiweddar - mae clefydau o dramor, bod yn agored i gemegau amaethyddol a'u bywyd yn cael ei leihau gan chwynladdwyr i gyd wedi gwneud difrod mawr."

Mae'n broblem sy'n bodoli ledled y DU ac mae gwenyn yng Nghymru wedi eu taro'n galed gyda rhai cadwyr gwenyn yn sôn am golledion o hyd at 60 y cant. Ond nid dim ond cyfeillion y cadwyr gwenyn

sy'n dioddef - mae rhagor na 250 o rywogaethau gwenyn yn y DU, ac erbyn hyn ystyrir bod chwarter ohonynt yn brin neu mewn perygl.

Ac nid dim ond ein gwenyn ac iechyd ein byd naturiol y maent yn dibynnu arno sydd mewn perygl difrifol. Mae gwenyn yn peillio 75% o'n cnydau hollbwysig a'n hoff fwydydd ac ni fyddai traean o'n bwyd ar gael o gwbl hebddynt. Hefyd, mae ffermwyr Cymru angen y gwenyn i beillio meillion glaswellt y mae ein diwydiant da byw yn dibynnu arno ar gyfer ein cynhyrchion o'r radd flaenaf.

Mae'r ymgyrch Cadw Gwenyn yn gofyn i Lywodraeth y DU am gynllun gweithredu a fydd yn sicrhau bod y ffordd yr ydym yn amaethu ein bywyd, cynllunio ein trefi a'n dinasoedd a gwarchod ein bywyd gwyllt i gyd yn gweithio'n well ar gyfer gwenyn. Diolch i'n hymgyrch mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi addo cynllun i wneud Cymru yn wenyngyfeillgar unwaith eto - felly os gallant hwy weithredu beth sy'n rhwystro San Steffan rhag gwneud hynny hefyd?

Mae digon y gallwch chi ei wneud hefyd, yn amrywio o arwyddo ein deiseb i

wneud eich gardd yn hafan i wenyn. Ac mae'n hawdd dechrau arni - ewch i [www.foe.co.uk/bees](http://www.foe.co.uk/bees).

## Sut i helpu'r gwenyn

### Arwyddwch ddeiseb ymgyrch

#### Cadw Gwenyn

Ymunwch â ni i ofyn i Lywodraeth y DU am Gynllun Gweithredu Gwenyn:

[www.foe.co.uk/bees](http://www.foe.co.uk/bees)

### Rhowch gartref i wenyn

Crëwch westy gwenyn yn eich gardd - maent yn gweithio mor galed fel eu bod angen digon o leoedd i orffwys, megis mortar sy'n breuo, coesynnau planhigion gwag neu dwll mewn pren.

### Plannwch yn wenyngyfeillgar


Mae llawer o blanhigion sy'n blodeuo sy'n gyfoethog yn y neithdar sydd ei angen ar wenyn - a gallant roi boddfa o liw i'ch gardd hefyd. Darganfyddwch ragor yn [www.foe.co.uk/bees](http://www.foe.co.uk/bees)

# Ynni yng Nghymru


**88%**

nifer y bobl yng Nghymru sy'n credu y dylem gynhyrchu rhagor o ynni o ffynonellau adnewyddadwy

## Cynhyrchu trydan yng Nghymru (2011)



## Twf mewn ynni adnewyddadwy (2003-11)



**9,500,000** tunelli


CO<sub>2</sub> a grewyd drwy gynhyrchu ynni yng Nghymru yn 2010

**15%** erbyn 2020


targeted Llywodraeth y DU ar gyfer y canran o ynni i ddod o ffynonellau adnewyddadwy

**9.4%** Canran yr ynni yn y DU o ffynonellau adnewyddadwy (2011)

## Defnydd nwy a thrydan yng Nghymru fesul tŷ



## Gallu gosodedig ynni haul yn y DU (2011)



**Dwbl** swm y trydan a ddefnyddir:

Potensial ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru erbyn 2025, yn ôl Llywodraeth Cymru

**4.4%** Canran y trydan a ddefnyddwyd yng Nghymru a ddaeth o ffynonellau adnewyddadwy (2011)

**cyfeillion y ddaear cymru**  
**friends of the earth cymru**